Rhif 211 CHWEFROR - MAWRTH 2018

AM DDIM


# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



# YR EXODUS A'R CYFAMOD



***Moses yn derbyn llechi'r gyfraith,*** Marc Chagall

gan y Parchedig Peter Jennings

I geisio cael goleuni ar Exodus 20 a'r Deg Gorchymyn, fy ngreddf gyntaf i – gan imi ddysgu Hebraeg ymhell cyn i Gwilym O Jones ddechrau dysgu Cymraeg imi a ninnau'n gyd-fyfyrwyr yn y Coleg Diwinyddol (rai blynyddoedd yn ôl!) – yw troi at esboniadau Iddewig ... maent yn siŵr o fod â rhywbeth diddorol i'w ddweud.

O edrych ar y cyd-destun, un o'r cymeriadau a ddaw i'n sylw yw Jethro, tad-yng-nghyfraith Moses, ac mae gan Jethro gyswllt ychydig yn anghyffredin â'r penodau pwysig hyn ynglŷn â'r datguddiad ar Sinai a'r Deg Gorchymyn. Nid un o'r Israeliaid mohono: yn hytrach mae'n 'ddieithryn', un sy'n cynrychioli'r byd y tu allan i Israel. Mae Jethro, offeiriad Midian, yn clywed am y cyfan a wnaeth Duw i ddod ag Israel allan o'r Aifft; yn hyn o beth mae'n cynrychioli cenhedloedd y byd a'u hymateb i'r digwyddiad anhygoel hwn. Mae'n llawenhau ac yn bendithio'r Duw sydd wedi achub ei bobl. Gwelwn debygrwydd yma i hanes y sêr-ddewiniaid a ddaeth adeg yr Ystwyll i gwrdd â'r Teulu Sanctaidd…a hanes y Canwriad wrth droed y Groes.

Dywed Jethro: "Bendigedig fyddo'r Arglwydd a'ch achubodd o law'r Eifftiaid." (Exodus 18.10). Ef yw'r cyntaf i gydnabod arwyddocâd yr Exodus yn gyhoeddus, gan ei sancteiddio â'i fendith. Mae ei bresenoldeb ef, sy'n ddieithryn, yn dangos fod rhyddhau pobl Israel o'u caethiwed yn ddigwyddiad sydd o bwys i bawb. Nid rhan o hanes yr Iddewon yn unig mohono. Mae Jethro hefyd yn ddolen gyswllt â'r digwyddiad nesaf sef y datguddiad yn Sinai.

Y cyfamod a wna Israel â Duw yn Sinai sydd yn gosod sêl ar yr Exodus. Rhan ganolog o'r cyfamod yw'r rheolau y bwriedir iddynt greu math arbennig o gymdeithas, yn seiliedig ar gyfiawnder a pharch a chariad at gyd-ddyn. Mae'r Exodus yn datgan hawl pawb i beidio â chael ei gaethiwo gan unigolyn arall nac unrhyw drefn. Mae gan bobl hawl i fyw mewn rhyddid. Er hynny, dengys y cyfamod ar Fynydd Sinai fod cyfyngiadau ar ein rhyddid personol. Rydym yn rhan o gymdeithas ac mae'r cyfamod yn diffinio ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau tuag at gyd-ddyn. Gan fod Jethro, un o'r tu allan, yn dyst i'r digwyddiadau hyn, sylweddolwn nad ar gyfer Israel yn unig y mae hyn oll. Israel fydd yr offeryn i drosglwyddo'r gwerthoedd hyn – rhyddid ynghyd â chyfrifoldeb i gymdeithas – i holl bobloedd y byd.

Beth arall roedd Jethro wedi ei glywed, a barodd iddo ddod ar ei daith i ymweld â Moses? Wel, roedd yn dad-yng-nghyfraith iddo, wedi'r cyfan, ac yn daid i blant Moses! Roedd ar Jethro angen gwybod hanes menter beryglus Moses i ryddhau Israel o wlad yr Aifft – a sicrhau ei fod yn dod yn ôl i ofalu am ei deulu. Pryd y byddai'n cael amser i'w wraig a'i deulu os oedd am fod yn gweld pobl a barnu achosion drwy'r dydd? Mae gofal a chariad y tad-yng-nghyfraith i'w weld yn y cyngor y mae'n ei roi i Moses.

Ond ar lefel ddyfnach, roedd Jethro am brofi drosto'i hun nerth y Duw hwn a oedd wedi goresgyn grym yr Aifft a'i duwiau. Roedd am fod yn rhan, am gyfnod, o daith y bobl hyn. Wrth ddarllen ei hanes cawn ein hatgoffa fod y byd hwn yn cynnig mwy na gelyniaeth ac nad ar ein pennau ein hunain yr awn ar ein taith. Ac mae'r Exodus a'r Cyfamod yn ein herio, ym mhob oes a phob gwlad, i dderbyn rhyddid ynghyd â chyfrifoldeb.

Un peth diddorol: pam tybed y mae Duw yn enwi 'tylwyth Jacob'(Ex.19:3) – sef y menywod yn ôl y dehongliad Rabbinaidd – cyn 'meibion Israel'? Oherwydd fod menywod yn barotach i ufuddhau i'r gorchmynion. Neu: oherwydd mai nhw fydd yn dysgu'r plant. [Midrash].

**Beth sy'n mynd ymlaen yma? Mae'r hanes yn 'O'r Gadair' ar dudalen 3!**



# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 211**

**CHWEFROR - MAWRTH 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***



**DYDDIAD CAU:**
**1 MAWRTH 2018**


Dylid gwneud sieciau yn daladwy i
**"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd, Chwefror a Mawrth 2018

**Chwefror**
4 Glannau Maelor
11 Gwyliau
18 Dyffryn Conwy
25 Ceredigion

**Mawrth**
4 Bathafarn
11 Llanrhaeadr
18 Glannau Maelor a Dyfi
25 De Gwynedd



*Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.*

# O'R GADAIR AR Y GOROR



**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Mae'n teimlo fel petaem ni ond newydd dynnu trimins y Nadolig i lawr ar yr Ystwyll, a dyna hi'n amser dechrau meddwl am ddydd Mawrth Ynyd a thymor y Grawys sydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y Lludw sef 14 Chwefror! Mae Sul y Pasg yn gynnar eleni, ar 1 Ebrill (er bod y dyddiad cynharaf posibl yn gynt na hynny hefyd, sef 22 Mawrth). Dyna'r Sul ar ôl y lleuad lawn gyntaf ar ôl cyhydnos y gwanwyn ar 20 Mawrth. Mae'n gwneud i'r gwyliau deimlo'n agos iawn at ei gilydd, ac mae'r tymhorau paratoi, sef yr Adfent a'r Grawys, yn teimlo'n agos hefyd. I rai traddodiadau o fewn yr eglwys, sy'n dathlu'r Nadolig tan ŵyl Fair y Canhwyllau ar 2 Chwefror, pan gofir Iesu'n cael ei gyflwyno yn y deml (Luc 2: 22-38), maen nhw'n teimlo'n agosach fyth, siŵr o fod.

Fis Rhagfyr diwethaf, a'r Nadolig yn agosáu, mi ges i f'atgoffa o dymor y Grawys yng nghanol yr Adfent. Anfonodd cydweithiwr ecwmenaidd o fy nyddiau yng Nghylchdaith Dudley and Netherton, sef Capten efo Byddin yr Iachawdwriaeth, ei ddymuniadau Nadolig trwy e-bost. Atododd lun o grŵp ohonom ni yn glanhau sgidiau rhai o drigolion y dref yn Sgwâr y Farchnad ar ryw ddydd Iau Cablyd. Roedden ni'n ceisio gwneud fersiwn modern o Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion ar ôl y Swper Olaf (Ioan 13). Dyna'r math o beth y byddem yn ei wneud o dro i dro – gweithred syml, yn gyhoeddus, fel tystiolaeth i'r efengyl, i wasanaethu ein cymdogion ac i rannu newyddion da cariad Duw. "Happy memories," meddai fy ffrind, ac mi ges i fy nharo gan y tebygrwydd, a'r berthynas agos, rhwng y digwyddiad roeddem ni ar fin ei ddathlu, sef genedigaeth Iesu, a digwyddiadau'r Grawys a'r Wythnos Fawr, gan gynnwys Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion.

Mae'r digwyddiadau hyn oll yn dangos *kenosis* Duw - *kenosis*, y gair Groeg am wagu'r hunan, megis yng ngeiriau Philipiaid 2: 7, "ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol." Dyna beth rydym ni'n ei weld yn y Nadolig a'r Grawys – Duw yng Nghrist yn ei wagu ei hunan o'i bŵer a'i nerth, er mwyn dod yn ddynol ac er mwyn cymryd ffurf caethwas, hyd at olchi traed ei ddisgyblion, hyd at wynebu'r groes oherwydd ei gariad mawr tuag atom ni. Adeg y Nadolig, mae rhywun yn gallu teimlo'n llawn iawn (nid lleiaf o bwdin, siocled, cacen, twrci ac ati!) ond mi wnaeth y llun f'atgoffa o'r newydd am y cariad a'i gwacaodd ei hun ac sy'n galw arnom ninnau i wneud yr un modd.

Mae'n haws meddwl am wagu ein hunain yn ystod y Grawys, efallai, nag yn yr Adfent, yn arbennig os ydym ni wedi ymwadu â rhywbeth ac yn ceisio ymprydio! (Eto, mae ymprydio yn gallu bod yn rhan o'n paratoadau yn ystod yr Adfent. Wnes i feddwl amdano fo unwaith – ond dim ond unwaith, er cywilydd i mi!) Mae gwagu ein hunain yn cymryd yn ganiataol ein bod ni'n gallu cael ein gwagu –hynny yw, bod gennym ni ddigon i hunan-wagu yn y lle cyntaf. Trist cydnabod bod diwinyddiaeth *kenosis* wedi cael ei chamddefnyddio i ormesu ymhellach bobl sy'n cael eu gormesu yn barod, ac felly sy'n meddu ar fawr ddim byd ynddynt eu hunain i'w wagu, nid lleiaf merched, plant a phobl o leiafrifoedd ethnig. Mae'n bosib i ni i gyd deimlo, yn ystod ein bywydau, ein bod ni'n wag yn barod, heb ddim byd i'w roi, ond ar y cyfan, i gymharu efo'r rhan fwyaf o bobl yn y byd, rydym ni sy'n byw yng ngwledydd gogleddol y blaned yn gyfoethog mewn llawer o ffyrdd. Ar y cyfan, rydym ni'n ddigon ffodus i fod mewn stad lle gallwn ni ddilyn esiampl Iesu a rhoi ohonom ein hunain, gwagu ein hunain, er ei fwyn ac er mwyn pobl eraill, ym mha ffordd bynnag sy'n addas ar y pryd, fel unigolion neu fel grwpiau a chymdeithasau. Mae'n ein tynnu ni'n nes ein Harglwydd ac mae'n cyfleu newyddion da ei gariad mewn byd lle mae cynifer o bobl yn credu y gallwn ganfod boddhad drwy geisio ein llenwi ein hunain â mwy a mwy. Mae neges yr efengyl yn dweud rhywbeth hollol wahanol: yn nheyrnas Duw, rhoi sydd yn arwain at dderbyn.

Rydym ni i gyd yn ddiolchgar am y rhai sy'n rhoi cymaint ohonynt eu hunain ym mywydau ein capeli a'r Synod, yn ein teuluoedd, ein cymunedau a'n cymdeithas. Maent hwythau'n dangos esiampl Iesu i ni. Ar hyn o bryd, rwy'n meddwl yn arbennig am Mr Medwyn Jones o Ddinbych, a gafodd ei benodi gan Bwyllgor Polisi'r Synod, fis Tachwedd diwethaf, i fod yn Drysorydd newydd y Synod. Mae gwasanaeth o bob math yn rhannu'r newyddion da, yn ôl patrwm ein Harglwydd ei hunan, yr un a'i "gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas" er mwyn ni gael ein llenwi â'i ras a'i gariad, ei nerth a'i dangnefedd. Diolch iddo.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Yn ystod mis Rhagfyr 2017 fe gododd dadl ddiddorol dros ben ymhlith ysgolheigion Lloegr ynglŷn â gwaith William Tyndale (1494-1536) yn cyfieithu'r Testament Newydd, tra ar yr un pryd (i bob pwrpas) yn creu'r iaith Saesneg. Prif nodwedd cyfieithiad Tyndale oedd yr iaith werinaidd, agos at y pridd a ddefnyddiwyd ganddo, fel y gallai'r bachgen a ddilynai'r wedd ddod i adnabod gair Duw yn well.

Gŵr hynod o ddewr oedd Tyndale a benderfynodd ar ôl clywed Desiderius Erasmus (1466-1536), cyfieithydd y Beibl i'r Roeg, yn siarad yng Nghaergrawnt, y dylid herio gafael y Pab a'r eglwys ar yr Ysgrythurau Sanctaidd a rhoi'r Gair yn nwylo'r bobl fel y byddai'r cyfan ar dafod leferydd ac yng nghalonnau pawb. Bu rhaid iddo ddianc i'r cyfandir ac anfon oddi yno 9000 copi o'r Testament Newydd i Loegr. Fe'i carcharwyd ym Mrwsel, ei arteithio ac ar Hydref 6ed 1536 ei losgi i farwolaeth. Yn 1611 o dan orchymyn y Brenin Iago fe gafwyd cyfieithiad newydd a fu'n sail i fersiynau modern y Beibl Saesneg yn ein dyddiau ni. Beibl a baratowyd gan bwyllgor oedd hwn ond ysywaeth, er mor rhagorol yw, fe gollwyd llawer o rin a blas iaith bob dydd William Tyndale.

Dichon fod y rhai sy'n credu bod yr iaith Gymraeg wedi'i hachub gan gyfieithiad William Morgan (1545-1604) o'r Beibl yn 1588 yn llygaid eu lle ond mae'n rhaid cydnabod hefyd bod gwaith eraill wedi rhoi sylfaen cadarn iddo wrth lafurio yn Llanrhaeadr-ym-mochnant. Yn Hydref 1567, union 450 mlynedd yn ôl i'r llynedd, fe ddaeth y Testament Newydd o'r wasg. Cafwyd cymorth gan Thomas Huet a'r Esgob Richard Davies gyda'r gwaith ond William Salesbury (1520-1584?) o Lansannan, a ysgwyddodd y baich mwyaf. Roedd eisoes wedi cyhoeddi'r Llyfr Gweddi ym mis Mai 1567 oedd yn cynnwys fersiwn Salesbury o'r Salmau. Er bod Mr E Gwynn Matthews, Caerdydd, wedi dwyn ein sylw i bwysigrwydd cyfieithiad 1567 gan Salesbury, fe ddylai fod yn destun cryn gywilydd inni fel cenedl bod yr achlysur wedi mynd heibio heb fawr o sôn am waith ysgolhaig mwyaf dysgedig y Dadeni yng Nghymru. Heb ddwyn dim oddi wrth Hen Destament 1588 William Morgan, teg yw nodi mai Salmau Salesbury a ddefnyddiwyd ganddo ac mai Testament Newydd Salesbury wedi'i lanhau a'i ddiwygio a ddefnyddiodd William Morgan i gwblhau'r Beibl Cymraeg cyntaf.

O gofio bod 2017 yn gyfle i nodi trichanmlwyddiant geni William Williams Pantycelyn (1717-91) mae'n syndod bod cyn lleied wedi'i wneud gennym i ddathlu hynny yn briodol. Teg dweud y bu darlithoedd a chymanfaoedd ond ni wnaed dim yn swyddogol gan y llywodraeth er bod cofio rhai unigolion llai eu cyfraniad i'r Gymraeg wedi cael nawdd gan y sefydliad. O ddiffyg hynny da yw gweld bod astudiaeth yr Athro Denzil Morgan ar gyfrol Saunders Lewis wedi dod o'r wasg.

Llawenydd o'r mwyaf hefyd yw gweld ***Yr Hen Bant*** sef ysgrifau ar William Williams Pantycelyn gan Glyn Tegai Hughes ac a gyhoeddir am £8.99 gan Y Lolfa. Yn ei ragair i'r llyfr dywed Rhidian Griffiths mai ar awgrym gan yr Athro E Wyn James y lluniwyd y gyfrol ac mai Cymdeithas Emynau Cymru a wnaeth y gwaith o gasglu'r deunydd at ei gilydd er mwyn nodi trichanmlwyddiant Pantycelyn ac i anrhydeddu'r cof am y diweddar Glyn Tegai Hughes (1923-2017). Anodd meddwl am ffordd amgenach o gofio am yr emynydd na chyhoeddi rhai o ysgrifau'r Doethur annwyl o Dregynon.

Wrth ddarllen y gyfrol safonol hon mae'r atgofion am ei hawdur yn britho'n ôl i'r wyneb. Nid oes rhaid dweud bod dawn lenyddol Dr Glyn yn gwbl amlwg ar bob tudalen o'r gyfrol. Mae'n berffaith eglur hefyd ein bod yng nghwmni ysgolhaig disglair sy'n gwbl sicr o'i ffeithiau ac yn bendant ei farn am le Pantycelyn fel prif emynydd Cymru. Er bod eraill wedi traethu ar Williams Pantycelyn dros y canrifoedd (rhai yn ddigon beirniadol), rydym yma yn cael golwg ar y dyn tu ôl i'r geiriau hefyd. Dyn prysur oedd Williams, weithiau ymhell o gartref ond nid yn rhy brysur chwaith i anfon at Mali, ei wraig, i ddweud wrthi, *"Palwch bedwar gwely i ddodi pys a ffa"*. Mae Dr Glyn yn rhoi darlun annwyl iawn o Williams a Mali wrth sôn am yr emynydd yn dewis mesurau i'w emynau a Mali yn awgrymu'r tonau.

Chwarae teg i Williams, y gŵr diwyd, mae'n eithaf sicr ei fod yn blino fel pawb arall ac wedi dioddef o amryw anhwylderau yn ystod ei fywyd. Er ei fod yn gallu canu *Mi bellach goda' maes / Ar foreu glas y wawr*, mae Dr Glyn yn dwyn i'n sylw gyhuddiad Thomas Charles 'nad oedd Pantycelyn fawr o fore-godwr'. Dyn oedd o gig a gwaed a allai fod yn gwbl ddynol ond a lwyddodd hefyd i droedio tir na all ond ychydig iawn o feirdd ei gyrraedd.

I fentro traethu ar waith emynydd mawr mae'n rhaid cael rhywun sy'n adnabod y gwrthrych yn well nag odid neb arall. Nid oes amheuaeth nad y Doethur Glyn Tegai Hughes oedd yr un mwyaf priodol i wneud y gwaith. I ddwyn geiriau o enau un o gymeriadau mwyaf lliwgar Daniel Owen, a'u newid beth, mae'r gyfrol hon yn profi bod yr Hen Bant a Glyn Tegai Hughes yn CHUMS!

## Gweithredu Dros Blant

"DIOLCH, DIOLCH, O DIOLCH YN FAWR!" Dyna hoffem ni ei ddweud wrth bawb, yn unigolion ac eglwysi, a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'n hymgyrch i gasglu rhoddion erbyn y Nadolig tuag at rai o brosiectau Gweithredu dros Blant. Pan aethom draw i swyddfa'r elusen yn y Rhyl roedd bŵt a sedd gefn y car yn orlawn gyda'r rhoddion oedd wedi eu rhoi a hynny gyda llai na thair wythnos o rybudd – ar gais un eglwys, mi fyddwn yn gobeithio lawnsio'r ymgyrch, eleni, ym mis Medi. Rydym wedi derbyn diolch, trwy Nikki Booth (ymgyrchydd codi arian Gweithredu dros Blant Gogledd Cymru a Swydd Amwythig), oddi wrth weithwyr y prosiectau. Os am weld llun, a dynnwyd gan Nikki o'r holl rhoddion, ewch i dudalen Facebook Synod Cymru.

Hoffem ddiolch hefyd i'r canlynol am eu rhoddion ariannol tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law yn ystod y misoedd diwethaf:

Bathafarn, Rhuthun = £45.00

Anfonwyd cyfanswm o £45.00 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am eich cefnogaeth,
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan,
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt,
Wrecsam LL11 4FF
01978 756717 / cwrteden@gmail.com

## ER COF AM R DILWYN JONES

Ar Dachwedd 12fed 2017 bu farw R Dilwyn Jones; mab y diweddar Barchedig a Mrs. J Gwyn Jones, brawd Elan a Richard Elfyn, gŵr Marian, tad Richard, Sali ac Anna Gwyn a thaid Matthew, Manon, David, Andrew, Ffion ac Elen Gwyn.

Mewn gwasanaeth i ddathlu bywyd Dilwyn ym Methlehem Gwaelod y Garth, Caerdydd, o dan arweiniad y Parchedig Ddr. R Alun Evans, fe draddodwyd teyrnged gan Euryn Ogwen gan gynnwys y soned yma.

**I Dilwyn**

Mae angen newid ar y melodïau
I godi'r ysbryd pan fo'r gaea'n hir,
Mae angen newid ar yr harmonïau
I ddod â gobaith gwanwyn nôl i'r tir;

Mae angen rhai sy'n gallu gwasgu canrif
O fyw i'w heinioes, beth bynnag ei hyd,
A chymwynaswyr prin sy'n rhoi heb gyfrif
Wrth dynnu lliw o'r llwydni dros ein byd.


A dyma ni, yng nghanol llwydni Tachwedd,
Yn chwilio am y lliw a gwefr y gân
Cofio a dathlu egni a brwdfrydedd
Yr enaid creadigol oedd ar dân.

Gwrandewch!
Mae'r melodïau yn crynhoi
A'r harmonïau newydd yn cyffroi.

*Euryn Ogwen*

# Y diweddar Dr Glyn Tegai Hughes a'r Pêr Ganiedydd

gan Lionel Madden




Pan ddeuthum i fyw yng Nghymru a dechrau mynychu gwasanaethau'r Methodistiaid Wesleaidd Cymraeg cefais sioc o sylweddoli nad Charles Wesley oedd y prif emynydd yn y llyfr emynau. I mi, a godwyd ar aelwyd Fethodistaidd yn Swydd Efrog, roedd emynau Charles Wesley yn ganolog i addoliad cyhoeddus a defosiwn personol. Trwy siarad â Dr Glyn Tegai Hughes a darllen ei lyfr meistrolgar *Williams Pantycelyn*, a gyhoeddwyd yn 1983 yn y gyfres 'Writers of Wales', cefais eglurhad am bwysigrwydd Pantycelyn mewn emynyddiaeth Gymraeg. Agorwyd fy llygaid hefyd i gyflwr crefydd yng Nghymru. Bydd neb sydd wedi darllen y llyfr yn anghofio'r paragraff trawiadol cyntaf sy'n sôn am gymaint yr oedd Anghydffurfiaeth a dylanwad emynau Pantycelyn wedi dirywio yn yr hanner canrif diwethaf.

2017 oedd trichanmlwyddiant geni Pantycelyn a thrwy'r flwyddyn bu llyfrau ac erthyglau, darlithiau, sgyrsiau a chymanfaoedd canu yn dathlu ei gyfraniad i fywyd ysbrydol Cymru o'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Yn 2017 hefyd bu farw Glyn Tegai ac yn hwyrach yn y flwyddyn cyhoeddodd Y Lolfa gasgliad o'i ysgrifau gyda'r teitl *'Yr Hen Bant': Ysgrifau ar Williams Pantycelyn*. Mae'r llyfr yn cynnwys naw ysgrif Gymraeg. Lluniwyd y gyfrol gan Gymdeithas Emynau Cymru, gymdeithas oedd yn agos at galon Glyn Tegai.

Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r ysgrifau yn wreiddiol fel erthyglau mewn cylchgronau megis *Y Traethodydd*, *Llên Cymru* a *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*. Yn annisgwyl braidd, ymddangosodd un yn *Y Gwyddonydd*, sef erthygl ar 'Pantycelyn ac iaith gwyddoniaeth' sy'n sôn am ei 'ddiddordeb mawr yn narganfyddiadau a dyfaliadau ei ddydd' a'r awduron gwyddonol y mae'n eu trafod a chyfeirio atynt yn ei waith.

Mae ysgrif ar 'Llyfrgell Pantycelyn' yn dangos mor eang oedd darllen Pantycelyn o'i gymharu â'r rhan fwyaf o'i gyfoedion – er, fel y disgwylir, roedd e'n pwysleisio ei gariad at y Beibl uwchlaw pob llyfr arall. Fel yr ysgrifennodd at Thomas Charles: 'er fod genni gannoedd o lyfrau nid oes blas ar un fel y bibl'. Yma a thrwy'r ysgrifau i gyd cawn ein hatgoffa mor ddwfn oedd gwybodaeth Glyn Tegai ei hun o lenyddiaeth y ddeunawfed ganrif.

Mae ysgrifau diddorol eraill yn trafod y delweddau a ddefnyddir gan Pantycelyn yn ei emynau, ei ddylanwad o'r ddeunawfed i'r ugeinfed ganrif, a'i ryddiaith. Ceir hefyd ddadansoddiad manwl o 'Emyn yr Ardd' a gyhoeddwyd yn 1769.

Er bod y rhan fwyaf o'r ysgrifau wedi'u cyhoeddi mewn cylchgronau, ymddangosodd dwy yn gyntaf fel penodau mewn llyfrau. Un yw ystyriaeth fanwl ac ysgolheigaidd ar 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid' a gyhoeddwyd mewn llyfr a olygwyd gan Derec Llwyd Morgan yn 1991. Y llall yw'r bennod ar 'Charles Wesley a Williams Pantycelyn' a ymddangosodd yn *Gwarchod y Gair*, y gyfrol goffa i'r Parchedig Griffith Thomas Roberts a olygwyd gan Owen E. Evans yn 1993. Mae'r ysgrif hon yn dangos mor eithriadol oedd Glyn Tegai yn ei wybodaeth drylwyr o'r ddau brif emynydd Methodistaidd. Mae'n cymharu'n sensitif iawn ddau emyn, sef 'Cymer, Iesu, fi fel ydwyf' ac 'Open, Lord, my inward ear'. Er bod cyfeiriadau at John a Charles Wesley trwy'r gyfrol dyma'r cyfraniad sy'n dangos yn glir Glyn Tegai fel mab y mans a arhosodd yn ffyddlon i'w fagwraeth trwy gydol ei fywyd hir a disglair.

Mae'r gyfrol yn dechrau gyda rhagair gan Rhidian Griffiths, Llywydd Cymdeithas Emynau Cymru a chyflwyniad gan Derec Llwyd Morgan. Mae'r ddau yn cyfleu rhywbeth o Glyn Tegai fel yr ydym yn ei gofio. Mae Rhidian Griffiths yn cyfeirio at 'ei hiwmor a'i dreiddgarwch'. Mae Derec Llwyd Morgan yn sôn amdano fel Warden Gregynog yn y cyfnod 1964-89 'yn ei *Harris tweed* a'i *cavalry twill*, gyda'i Saesneg cain a'i Gymraeg cyfoethog, a chyda'i feddwl llydanwedd, ei urddas a'i foneddigeiddrwydd'.

**Astudiaethau'r Grawys:**
Cynhelir Astudiaethau'r Grawys yn Shiloh Tregarth, bob nos Iau gan ddechrau ar 15 Chwefror, dan arweiniad y Parchedig Richard Gillion. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Rhaghysbysiad:**
Ar Ebrill 28 2018, am 2.30 p.m. yng nghapel Bethel, Yr Wyddgrug, cynhelir cyfarfod Merched Methodistaidd a'r siaradwr gwadd fydd Kay Polley, swyddog gyda'r elusen Trefnu Cymunedol Cymru (T.C.C.)




## MEGAN ROBERTS

Ar 1af Hydref 2017 bu farw Megan Roberts, Bebington yn 94 mlwydd oed. Ganwyd Megan ym Mhenbedw yn ferch i'r diweddar Peter ac Elizabeth Roberts a threuliodd ei phlentyndod ym Mhenbedw a Phenmaenmawr gyda'i rhieni a'i brawd y diweddar Merfyn Hughes Roberts.

Enillodd radd mewn Ffrangeg a Lladin o Goleg y Brifysgol Bangor a dilynodd yrfa fel athrawes Ffrangeg, Lladin ac Astudiaethau Crefyddol ac yn olaf fel dirprwy brif athrawes.

Bu Megan yn aelod ffyddlon yng nghapel Claughton Road, Penbedw ac yna yng nghapel Noddfa, Bebington ac yn ddiweddar yng Nghapel Seion, Laird Street, Penbedw a bu'n gwasanaethu fel pregethwr cynorthwyol ac organydd am dros drigain mlynedd.

CAPEL NI YN EGLWYS IESU




## Bethel, Prestatyn

**PANED A SGWRS**

Dechreuwyd menter newydd ym Methel, i gynnig cyfeillgarwch i bobl leol a'u hannog i ddod i mewn drwy ddrysau'r capel. Cynigiwn gyfle i bawb sy'n dymuno alw i mewn bob bore Mercher i gael paned a sgwrs. Mae'n hyfryd gweld pob oedran yn cymysgu ac yn rhannu cyfeillgarwch. Rydym yn derbyn rhoddion am y coffi ac yn ddiolchgar iawn i bawb am eu haelioni sydd wedi ein galluogi i brynu byrddau a chadeiriau newydd i'r Ysgol Sul.

**DRWS AGORED**

Eleni fe agorwyd drysau blaen y capel ar fore dydd Mercher gan wahodd y gymuned i mewn i weld y capel wedi ei addurno ar gyfer y Nadolig. Mwynhawyd cerddoriaeth Nadolig, paned a mins pei.

**ANRHEGION I GWEITHREDU DROS BLANT**

Diolch o galon i'r holl aelodau a gyfrannodd i gasgliad anrhegion Nadolig Gweithredu dros Blant. Rhan o waith da y mudiad yw dosbarthu anrhegion yn lleol i blant sydd yn ofalwyr ifanc, o deulu incwm isel neu gyda brawd neu chwaer mewn hosbis.

**DATHLIADAU'R NADOLIG**

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan ofal y plant a'r ieuenctid i ddathlu'r Nadolig. Perfformiwyd drama'r geni gan y plant a phawb wrth eu bodd yn gwisgo i fyny ac yn









gwneud eu rhan mor ardderchog. Diolchwyd i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd coffi a mins peis yn y festri.

Ar noswyl Nadolig, roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog y Diacon Jon Miller. Croesawyd nifer o gyfeillion o gapeli lleol a hyfryd oedd cydaddoli yng ngolau canhwyllau. Daeth y gwasanaeth i ben gyda sacrament a chawsom ddymuno Nadolig Llawen i'n gilydd.

Oherwydd y tywydd garw a'r eira, bu'n rhaid inni ohirio cyngerdd Côr Ger y Ffin ond ar fore Sul olaf y flwyddyn cynhaliwyd gwasanaeth ar ffurf Plygain gyda darlleniadau, cerddi, emynau a phedwarawd. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran. Cawsom wasanaeth dechrau blwyddyn bendithiol iawn hefyd fel rhan o raglen Cymdeithas Lenyddol Capeli Cymraeg Prestatyn. Y Parchedig Thomas Evans Williams oedd yn arwain.

**CYDYMDEIMLO**

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth brawd Miss Margaret Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**

Croesawyd Mr Eryl Roberts, Y Rhyl, i gyfarfod Rhagfyr a chafwyd sgwrs ar y testun 'Y Sipsiwn Cymreig'.

**DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol dan ofal y Parchedigion Tudur Rowlands, Peter Jennings, Thomas E Williams a Glyn Thomas a hefyd Royce Warner ac Elizabeth Jones.

**MWYNHAU CYMDEITHAS**

Dydd Sadwrn Tachwedd 11eg daeth aelodau Pendref ynghyd i fwynhau pryd o fwyd amser cinio ym Melin Brwcws, Dinbych. Dyma'r ail waith i ni gynnal achlysur o'r fath. Amser pleserus dros ben a phawb yn mwynhau'r bwyd blasus a'r gwmnïaeth. Gobeithiwn ddatblygu'r arferiad i fod yn un blynyddol. Yna yn dilyn oedfa bore Sul Cyntaf yr Adfent ar Ragfyr 3ydd, mwynhawyd paned a mins pei yng nghwmni ein gilydd. Diolch i Mary a Ceri am drefnu.

**CODI ARIAN**

Bore dydd Sadwrn, Tachwedd 25ain cynhaliwyd Ffair Hydref / Nadolig yng Nghanolfan Eirianfa, sydd drws nesaf i'r capel. Daeth nifer dda o drigolion Dinbych a'r cylch i gefnogi achlysur llwyddiannus dros ben a gwnaed elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch am bresenoldeb a chyfraniad pawb tuag at y ffair. Byddwn yn cynnal 2 ffair / bore goffi yn ystod 2018 - Mai 5ed a Thachwedd 17eg yng Nghanolfan Eirianfa.

**DYMUNIADAU GORAU**

Rydym yn hynod o falch o weld Hywel Evans yn ôl wrth y llyw fel Ysgrifennydd yr Eglwys yn dilyn cyfnod o anhwylder iechyd.

*Gohebydd – Mary Jones*

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**TRYSORYDD YR EGLWYS**
Carem ddiolch yn fawr iawn i Mr Islwyn Evans am ei waith fel trysorydd yr Eglwys am y pymtheng mlynedd diwethaf. Mae ein dyled yn fawr iddo. Ond oherwydd ei olwg bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r swydd. Diolch i Mrs Rhian Kelbrick am ymgymryd â'r swydd. Diolch i bawb am eu cyfraniad i waith a thystiolaeth Preswylfa.

**BORE NADOLIG**
Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn yn ein cyfarfod gweddi undebol ym Mhreswylfa ar fore'r Nadolig. Cymerwyd rhan gan Eglwys Pensarn, Capel Coffa a Phreswylfa.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Parchedig Brian Wright yn ei brofedigaeth o golli ei annwyl fam yn 105 oed.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYNGERDD CAROLAU**
Ers 2008, mae cyngherddau carolau elusennol wedi cael eu cynnal bob blwyddyn er budd Hosbis Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Mae cyfanswm o fwy na £12,000 wedi ei gyfrannu i'r achosion da hyn dros y blynyddoedd. Ar nos Fercher y 6ed o Ragfyr y cynhaliwyd cyngerdd 2017 a braint oedd croesawu'r Parchedig Jennifer Hurd a roddodd anerchiad ac offrymu gweddi yn ystod y noson. Arweiniwyd y cyngerdd gan Mr Dilwyn Price gyda digon o hwyl a sbri. Dilwyn hefyd yw arweinydd Côr Alaw, a oedd yn bresennol, a chymerwyd rhan hefyd gan Gôr Ysgol Bod Alaw. Dychwelodd Cari Ela Humphrey fel unawdydd unwaith eto a chafwyd datganiadau ar y delyn gan Catrin Elin, dwy ferch dalentog leol. Mr Gwyn Jones oedd yr organydd.

Cafwyd casgliad tuag at y ddwy Hosbis a, gyda chyfraniad o Eglwys Horeb, codwyd y swm o £1347.46 a fydd yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen. Diolchwn hefyd am gefnogaeth Clwb Rotari Llandrillo yn Rhos. Fel arfer, roedd rhywbeth at fodd pawb a chafwyd sgwrs, paned a mins peis ar y terfyn yn yr Ysgoldy.

**CYFARFOD GWEDDI UNDEBOL**
Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Undebol yn Nisgwylfa ar Ragfyr 4ydd. Cawsom wasanaeth bendithiol iawn dan ofal ein cyfeillion o gapel Hebron.

**PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau gwresol i Mrs Dora Jones a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 101 ar Ragfyr 30.

**OEDFA'R NADOLIG**
Tro capel Ebeneser, Hen Golwyn, oedd hi i gynnal y Gwasanaeth Undebol fore Nadolig a chawsom wasanaeth bywiog a difyr iawn.

**CLEIFION**
Cofion caredig unwaith eto at y cleifion oll.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Bethel, Rhiwbeina

**DATHLU PEN-BLWYDD**
Yn ystod mis Tachwedd bu un o'n haelodau hynaf, Bob Davies, yn dathlu ei ben-blwydd yn 93 oed. Bellach mae Bob yn byw mewn cartref yn Nhreganna ond yn dal i gymryd diddordeb yng ngweithgareddau'r capel. Roedd yn ddiolchgar i bawb am eu cyfarchion pen-blwydd a thymhorol ac yn diolch hefyd i'r gweinidog a'r aelodau sy'n ymweld ag ef yn y cartref.

Anfonwyd ein cofion cynhesaf at Arfon Roberts a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. Edrychwn ymlaen at ei groesawu'n ôl i Gaerdydd yn ystod 2018.

**BORE GOFFI**
Cynhaliwyd bore goffi a stondinau llwyddiannus ar Dachwedd 21 yn y capel. Daeth criw da i gefnogi'r achos a llwyddwyd i godi bron i £400 ar gyfer Prosiect y Digartref yn Salem, Treganna.

**YR YSGOL SUL**
Yn ystod y misoedd diwethaf buom yn lwcus o gael cwmni dwy o ferched Ysgol Glantaf, sef Eleri a Sali, a fu'n helpu gyda'r gweithgareddau yn yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iawn iddynt. Bu'r Ysgol Sul wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer gwasanaeth Nadolig y plant a gynhaliwyd fore Sul, Rhagfyr 10 gyda'n gweinidog y Parchedig Evan Morgan yn arwain. Ar ôl y gwasanaeth ymwelodd Siôn Corn â'r plant yn y festri. Cafwyd paned a danteithion i bawb.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG**
Bu côr y capel a nifer o bobl eraill yn brysur yn paratoi ar gyfer y gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr. Ein gweinidog a arweiniodd wasanaeth o garolau a chyfle i bawb gyfranogi o'r Cymun Bendigaid ar fore 24 Rhagfyr. Ymunwyd â ni yn y gwasanaeth hwn gan aelodau o Salem, Treganna. Yna am 11 o'r gloch yr hwyr ym Methel cynhaliwyd gwasanaeth Llith a Charolau dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Da oedd gweld Bethel yn rhwydd lawn ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**YMWELIAD Y CADEIRYDD**
Braf oedd croesawu'r Parchedig Jennie Hurd atom i gloi'r hen flwyddyn ac i'n hysbrydoli ar gyfer 2018. Unwaith eto roedd cynrychiolaeth deilwng o Salem wedi ymuno â ni ym Methel.


**DYMUNIADAU GORAU**
Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un gythryblus i sawl aelod ym Methel. Cafwyd cyfnodau o dristwch ac mae hiraeth am anwyliaid a gollwyd yn parhau. Ein gobaith yw y gwelwn heddwch a threfn yn ein byd a dymunwn yn dda i bawb.

*Gohebydd – Gwilym E Roberts*



# DATBLYGU EIN GALWAD

Fel aelodau o'r Eglwys Fethodistaidd, fe'n gelwir i **addoli yn yr eglwys leol, i ddysgu a gofalu, i wasanaethu ac i efengylu**. Dyna grynhoi ein galwad. Sut rydym yn gwneud hyn? Sut mae ei wneud yn well? Fel y gŵyr ein darllenwyr, fe benderfynodd Synod Cymru beth amser yn ôl ein bod am gymryd y pedair thema a welir yma fesul un (er eu bod wrth gwrs yn gorgyffwrdd) a chanolbwyntio ar eu datblygu. Mae'r cynllun ar fynd ers tair blynedd a mwy erbyn hyn ac yn ddiweddar bu'r *Gwyliedydd* yn holi rhai o'r capeli sut maent wedi ymateb i'r her. Diolch yn fawr i'r Diacon Jon Miller am rannu ei ddarluniau difyr sydd yn cyfleu'r gwahanol themâu.



Dyma ymateb diddorol **Ebeneser, Dolgellau**, lle datblygwyd syniad creadigol sy'n cyffwrdd â themâu **addoli** ac **efengylu**.




Ebeneser, Dolgellau

Yng ngeiriau'r Diacon Stephen Roe: *Fel y mae'r rhai sydd wedi dod i Gapel Ebeneser, Dolgellau yn ddiweddar yn gwybod, mae grŵp lleol yn cadw model o'r rheilffordd fel yr oedd yn Nolgellau yn y 60au yn y festri. O bryd i'w gilydd drwy'r haf, maen nhw'n gwahodd y cyhoedd i ddod i weld y model. Eleni, mi wnaethon ni benderfynu agor y Capel hefyd, gan gynnig cyfle i edrych o gwmpas, i gael paned, ac i weddïo.*

*Mi wnaethon ni drefnu tair gorsaf weddi. Coeden weddi oedd y gyntaf, gyda gwahoddiad i ysgrifennu gweddi dros ffrind, dros aelod o'r teulu, neu drosoch chi eich hun, a'i hongian ar y goeden. Yr ail oedd nifer o bapurau lleol, gan awgrymu efallai yr hoffai pobl ddarllen yr erthyglau a gweddïo dros ardal Dolgellau. Y drydedd oedd map o'r byd; gofynnwyd i bobl feddwl am wlad anghenus, rhoi ffigwr 'Lego' arni, a gweddïo drosti.*

*A dweud y gwir, doedden ni ddim yn or-brysur, ond gwerthfawrogodd y rhai a ddaeth i mewn y cyfle i edmygu'r adeilad hardd, a'r cyfle i fod yn llonydd am ychydig o funudau. Y peth a'm trawodd fwyaf oedd bod rhai o'r bobl ddaeth i mewn yn dweud nad oedden nhw erioed wedi gweld tu fewn i'r Capel o'r blaen, er eu bod yn byw yn Nolgellau ers blynyddoedd!*

Ar ôl edrych ar ddarluniau'r Diacon Jon sy'n cyfleu pedair thema Ein Galwad, bu aelodau **Eglwys Unedig Colwyn** yn meddwl ymhellach am ddatblygu'r themâu.



Horeb, Bae Colwyn

Mae'r eglwys yn datblygu thema **addoliad** drwy roi cyfle i bob aelod sy'n dymuno gymryd rhan mewn gwasanaeth drwy weddïo, darllen yr ysgrythurau, arwain emyn a darllen ar y cyd. Roedd pawb yn cyfrif hyn yn werthfawr a bendithiol ac yn rhywbeth yr hoffent ei ddatblygu ymhellach.

O ran **dysgu a gofalu**, ceisir parhau'r traddodiad o ddysgu a gofalu am ein gilydd yn ysbrydol, corfforol a chymdeithasol. Gobeithir datblygu trefn lawnach i ofalu am y rhai sy'n methu mynychu'r gwasanaethau oherwydd gwaeledd neu i helpu'r rhai sydd angen rhywun i warchod er mwyn iddynt ddod.

Fel unigolion, mae llawer o'r aelodau yn **gwasanaethu** mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft trwy fod yn aelodau gweithgar o elusennau a sefydliadau cymdeithasol, gan ofalu am bobl fethedig, y rhai sy'n wael, pobl hŷn ac agored i niwed ac ati. Ceisiwn feddwl ymhellach am ffyrdd o ddatblygu ein gwasanaeth fel Eglwys.

**Efengylu:** bu cryn drafodaeth ar y pennawd yma a'r consensws oedd mai braidd yn wan oedd yr Eglwys i fynd i'r afael ag efengylu y tu allan i'r Eglwys ond bod llawer iawn o waith i'w wneud yn y maes pwysig hwn, yn enwedig mewn cartrefi henoed, carchardai ac ysbytai i enwi dim ond rhai o'r llefydd y gall yr Eglwys fynd i rannu'r newyddion da.




Ebeneser, Treuddyn

Yn **Ebeneser, Treuddyn**, mae'r aelodau, er mwyn **efengylu**, yn ymdrechu fwyfwy i ymestyn allan i'r gymuned. Maent yn defnyddio gwahanol gyfryngau i wneud hynny: yn ogystal â defnyddio posteri i roi gwybod i bawb beth sy'n digwydd yn y capel, fe wnaethant eleni ddosbarthu 500 nodyn gwahoddiad personol fel bod pobl yr ardal yn gwybod bod iddyn nhw groeso. At hynny, byddant yn rhoi hysbysiadau yn rheolaidd ar Facebook: maent yn ymwybodol fod dros 130 wedi gweld y rhai diwethaf. Ac wrth gwrs, sôn wrth bawb fod gwasanaeth carolau i'w gynnal! Llwyddwyd i ddenu cynulleidfa o ryw 65 i'r gwasanaeth hwnnw y tro hwn.

Cofiwch fod Synod Cymru ar Facebook: https://www.facebook.com/synodcymru/

Mae aelodau **Pisgah, Rhiwlas** yn falch o allu **gwasanaethu** pobl sydd yn oedrannus a heb fod mewn iechyd da drwy ymweld â nhw. Y Nadolig diwethaf (2016) penderfynwyd dechrau menter newydd i ddod â diddanwch i'r bobl ac mae am fod yn rhywbeth blynyddol. Bydd criw yn mynd i ymweld â chartrefi nyrsio a phreswyl yn yr ardal er mwyn cynnal oedfaon carolau. Caiff pobl lawer o bleser o glywed Einir yn canu unawdau ac o wrando ar ddarlleniadau o'r Ysgrythur. Eleni fe ymunwyd â chriw Pisgah, sef Einir, Hefin, Rhian a Jim, gan eu gweinidog y Parchedig Richard Gillion a fu'n canu i gyfeiliant gitâr.



Rhian, Parchg. Richard ac Einir

Mae'r llun hwn a ddaeth i law o gapel **Bethel, Prestatyn** yn dangos eu bod yn meddwl am ffyrdd newydd a hwyliog o **ddysgu a gofalu**! Yma maent yn dysgu stori o'r Beibl, sef hanes y Claf o'r Parlys, trwy ei hactio.

Dro arall, aeth aelodau'r Ysgol Sul ati i addurno pabell i edrych fel morfil, er mwyn dweud stori Jona. Cafodd y plant **fod** yn Jona yn mynd i mewn i'r morfil, gan ymarfer neidio allan o'i geg! Mae'r plant yn dysgu caneuon newydd ac yn chwarae gemau newydd.



Y Claf o'r Parlys

Nid yw'r oedrannus a'r rhai sy'n sâl neu'n gaeth i'w cartrefi yn cael eu hanghofio chwaith oherwydd bydd aelodau Bethel yn ymweld â nhw.

Yn eu **haddoliad** ar Suliau arbennig, mae Bethel yn meddwl am ffyrdd o gynnwys pawb: er enghraifft, ar Sul y Pasg fe wahoddir pobl i ddod ymlaen i addurno'r groes fel arwydd o'r Atgyfodiad a'r bywyd newydd.



Sul y Pasg

Ac fel y gwelir yn y llun hwn, mae Gwasanaeth Nadolig y Plant yn llawn hwyl!



Nadolig ym Methel

Eleni rhoddwyd sylw i wasanaethu drwy fynd ati i gasglu anrhegion i blant anghenus drwy gynllun Gweithredu dros Blant. Bu plant Bethel hefyd yn brysur yn codi arian i'r Genhadaeth gyda'u stondin gacennau.



Casglu anrhegion i Gweithredu dros Blant

Mae **efengylu** yn digwydd trwy baratoi posteri a thaflenni i'w rhannu i ffrindiau a chymdogion gyda manylion am wasanaethau a gweithgareddau'r capel. Hefyd fe gynhelir gwahanol ddigwyddiadau er mwyn i bobl o'r tu allan gael cyfle i ddod i mewn i Fethel, fel cyngerdd mawreddog Côr Ger y Ffin, Rhosllanerchrugog.



Cyngerdd arbennig

A dyma lun menter arall groesawus.




Croesawu

Yn **Shiloh, Tregarth**, ymdrechir yn gyson i gynnig **gwasanaeth** yn yr ardal, er enghraifft trwy gefnogi'r Banc Bwyd lleol.




Banc Bwyd

A chynigir cwmni a gofal drwy agor y drysau. Cofiwch alw am baned ar foreau Gwener os byddwch yn y cyffiniau!




Panad sa'n dda

I'w barhau (gobeithio!)

# O'R PEN YMA



**gan ANGHARAD TOMOS**

Ambell waith yn ystod oedfa, cewch gymaint o'r sgwrs i blant ag a gewch o'r bregeth, a dyna oedd fy mhrofiad yn ddiweddar. Nid nad oedd Karen Owen, Penygroes, wedi rhoi chwip o bregeth, ond roedd ei neges i'r plant yr un mor gofiadwy, a dyna oeddwn i am ei rannu efo chi.

O'i phoced dde, mi dynnodd dysen, ac o'r boced chwith, mi dynnodd wy, er mawr syndod i'r gynulleidfa. O holi'r plant, cafodd y wybodaeth fod tysen yn galed, ac wy yn fregus. Curodd y dysen ar y bwrdd i wneud y pwynt, ond fentrodd hi ddim efo'r wy (er siom i'r plant yn ddiau!)

"Ond er fod y dysen ma'n galed, be fedra i wneud efo hi?" gofynnodd. 'Chips' a 'crips' oedd yr atebion cyntaf, ond yna fe gododd un plentyn ei law, ac ateb: 'Mash'. Hwnnw oedd yr ateb roedd Karen yn ei geisio.



"Peth bregus ydi hwn," meddai Karen wedyn, gan ddal yr wy, "ond o'i ferwi am tua deng munud, be fasa fo?"

"Wy wedi ei ferwi yn galed," atebodd pawb.

A dyna oedd y wers gofiadwy, mor syml â hynny. O roi gwres dan y ddau, roedd y caled yn troi yn feddal, a'r meddal yn troi yn galed. Roedd am i'r plant gofio hynny, ond am gymhwyso'r stori i'w bywydau.

"Oes yna blant tyf yn eich ysgol?" gofynnodd. Roedd dwylo plant Penygroes i fyny yn syth, ond nid rhai Groeslon!

Eisiau inni gofio roedd Karen nad ydi'r rhai ymddangosiadol galed, bob tro yn galed y tu mewn. Falle fod y plant mwyaf 'tyf' weithiau yn hynod feddal tu mewn, a dim ond mwgwd ydi'r caledi. Profwch hwy, ac fe welir yn ddigon buan pa mor feddal ydynt.

'Run peth efo'r plant ymddangosiadol wan. Falle eu bod yn fregus ar yr wyneb, ond rhowch wres oddi tanynt, rhowch nhw mewn sefyllfa beryg, ac fe fedrant ddangos cryfder di ben draw.

Nid wrth ei big y mae prynu cyffylog meddai'r ddihareb, ac rydym yn dra cyfarwydd efo'r wers. Ond bobl bach, roedd ei dysgu drwy gyfrwng taten ac wy yn ffordd gofiadwy iawn o'i hail-ddweud.

## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tansgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Aelodau Eglwys Peniel Llanelwy | £500-00 |
| Dienw | 50-00 |
| Dienw | 50-00 |
| Mr a Mrs Telfryn Pritchard, Evesham | 50-00 |
| **Cyfanswm** | **£650-00** |

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Ebeneser, Treuddyn

**DATHLU'R NADOLIG**
Roedd ein Gwasanaeth Carolau dwy-ieithog, a gynhaliwyd ar noswyl Nadolig, yn un bendithiol a llwyddiannus iawn gyda nifer fawr o'r gymdeithas leol wedi ymuno ni yn y gwasanaeth arbennig hwn a oedd dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Ar derfyn yr oedfa cafwyd cyfle i fwynhau paned, cacen a sgwrs.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch, cofnodwn y cynhaliwyd tair angladd yn y capel yn ystod mis Rhagfyr. Bu'r gwasanaethau dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Roedd Mrs Agnes Christopher, Eryrys, a Miss Iris Pope, Eryrys, yn aelodau yng Nghapel Salem, Eryrys, cyn iddo gau. Yn gwasanaethu ar yr organ yn angladd Mrs Agnes Christopher roedd ein horganydd Mrs Margaret Roberts ac yn angladd Miss Iris Pope yr organydd oedd Mrs Bronwen Gough, sef cyd aelod a chyn organydd Capel Salem. Bydd colled fawr am y ddwy a chydymdeimlwn yn fawr iawn â'u teuluoedd. Bu i Gapel Ebeneser golli un o'i haelodau pan fu farw Miss Margaret Jones, Coedllai. Bu yn aelod ffyddlon yn Ebeneser yn dilyn cau Capel Horeb, Coedllai ym 1992. Nid oedd Margaret wedi mwynhau'r iechyd gorau ers peth amser a bu rhaid iddi dreulio ychydig dros flwyddyn mewn cartref gofal. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu yn eu profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl ganddynt. Organydd y cynhebrwng oedd Mrs Margaret Roberts.

**Y GYMDEITHAS**
**Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd y Gymdeithas eto a fydd yn ail ddechrau ar Nos Fercher, Mawrth 7fed am 7 yr hwyr. Y gŵr gwadd fydd Mr Aneurin Phillips. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.**

**COFION**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i holl aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio'n arbennig am y rhai sy'n wael yn eu cartref, ysbytai neu gartrefi gofal.

*Gohebydd – Glenys Davies*

**Croeso i bawb i wasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yng Nghapel y Rhos, Treuddyn, ar nos Sul, Mawrth 4ydd am 6.00 yr hwyr.**

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Awen, merch Rhian a Rhodri, ac Ifan Morgan, Capel Coch, Sir Fôn, ar achlysur hapus eu dyweddïad. Llongyfarchiadau hefyd i Olwen Griffiths ar enedigaeth gor-wyrion. Llongyfarchwn a dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Audrey a Llew Jones sydd wedi dathlu eu priodas ddiemwnt.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Margaret Evans, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Da yw ei gweld yn gwella. Meddyliwn amdanoch a phawb sy'n wael.

**S4C**
Braf oedd gweld Siân Tŷ Ucha'r Llyn ac Eleri Jones, Gwyddelwern, ar raglen 'Chwedloni' yn ddiweddar. Difyr iawn.

**YSGRIFENNYDD YR EGLWYS**
Dymuniadau gorau i Siân, Tŷ Ucha'r Llyn, sydd yn ymgymryd â'r gwaith o fod yn Ysgrifennydd Capel Wesle Gwyddelwern. Diolchwn yn gywir i Gladwen Jones, y cyn-ysgrifennydd, am ei hymroddiad a'i gweithgarwch dros y blynyddoedd.

**CYDYMDEIMLO**
Ein cydymdeimlad llwyraf â theulu'r ddiweddar Mrs Mary Jones, Glyn-dyfrdwy, a fu'n hynod o ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd maith yng nghapel Seion, Glyndyfrdwy. Bydd yn chwith iawn ar ei hôl.

Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf hefyd at deulu'r diweddar John Herbert Williams, Prestatyn gynt, brawd i'r diweddar Barchedig Joseph E. Williams a Margaret Evans. Bu'n swyddog ac aelod gweithgar iawn am flynyddoedd ynghyd â'i ddiweddar briod Gwenfron, yng nghapel Galltmelyd ac Ardal Dyffryn Clwyd. Meddyliwn amdanoch i gyd fel teulu.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Daeth criw da ynghyd i wrando ar Cyril Jones a Gwyn Williams yn sôn am eu magwraeth yng nghapel Bron y Nant, Mochdre. Hynod o ddifyr ac yn ein hatgoffa ni i gyd am gymdeithas glòs ac annwyl a oedd yn bodoli yn ein capeli yr adeg honno gan gofio nad oedd pethau eraill i ddenu fel yn yr oes hon. Diolch o galon i'r ddau am gyflwyniad diffuant a sionc ac i Lowri a'r aelodau eraill am baratoi paned ac i'r Parchedig Martin Evans-Jones am y defosiwn.

Ym mis Rhagfyr cafodd y Gymdeithas gyfle i ddathlu'r Nadolig gyda thrigolion Cartref Awelon a Llys Awelon. Cafwyd storïau a phrofiadau plentyndod o edrych ymlaen at y Nadolig gan Olwen, Elizabeth, Edwina, Dilys, Lowri ac un o'r trigolion. Cyfle wedyn i sgwrsio a mwynhau lluniaeth. Noson gyda naws gartrefol a phawb wedi cael bendith o fod yno.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG**
Cawsom fendith o ddod at ein gilydd mewn oedfa arbennig ym Mathafarn. Roedd y croeso a'r gweddïau agoriadol dan ofal Elizabeth. Goleuwyd cannwyll yr Adfent a chafwyd defosiwn dan ofal Edwina, Lucy a Siôn. Yn ogystal, cafwyd cyfraniadau teimladwy gan Marian ac Elwyn, Corwen, a Siân o Wyddelwern. Braf oedd cael cwmni'r Parchedig Jennie Hurd a gwrando ar ei hanerchiad pwr-pasol. Diolchwyd gan Dafydd a chyf-eiliwyd gan Rhian. Roedd y casgliad yn ôl yr arfer yn mynd tuag at Gweithredu dros Blant. Terfynwyd gyda'r Fendith gan y Parchedig Martin Evans-Jones. Ymlaen wedyn i ganolfan hwylus Awelon a the blasus wedi ei baratoi gan Mairwena gyda chymorth Meta, Lowri a Rhian Hughes. Cyfle gwych i gym-deithasu yng ngwir ystyr yr ŵyl annwyl hon a phawb yn falch o gael cwmni Ifor Parry sy'n derbyn gofal yng Nghartref Plas Gwyn, yntau wedi bod yn hynod o ffyddlon a gweithgar dros y blynyddoedd. Diolchwyd i bawb gan Elizabeth, a oedd hefyd yn gyfrifol am roi'r blodau.

Ar fore'r Nadolig, hyfryd oedd cael dod at ein gilydd i wasanaeth Cymun yn addoldy Heol y Parc. Diolch i Hazel Jones ac i gyfeillion Heol y Parc am eu croeso i ni aelodau Eglwysi Cymraeg Rhuthun. Y cyfeilydd oedd Gwylan Edwards.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Yn dilyn gwasanaeth y Cymun yn Rhagfyr, a oedd dan ofal y Parchedig Martin Evans-Jones, cynhaliwyd cyf-arfod blynyddol Bathafarn dan ofal Elizabeth. Diolchwyd i Meta a Beryl am baratoi'r Cymun yn ystod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr i'r swyddogion ac i bawb am eu teyrngarwch a'u gweith-garwch yn ystod y flwyddyn. Yr ysgrifennydd yw Rhodri a'r trysorydd yw Dafydd.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

**Mawrth 25:**
**Gwasanaeth Sul y Blodau ym Mathafarn, Rhuthun, am 2pm o dan ofal y Parchedig Martin Evans-Jones. Bydd eitemau amrywiol yn rhan o'r gwasanaeth a pharatoir te yn Awelon.**
**Croeso cynnes i bawb.**

## Ebeneser, Caernarfon

**RHODD**
Fel eglwys rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y rhodd garedig a dderbyniasom er cof am Richard Roberts (Richie) gan ei deulu. Bu Richie'n un o ffyddloniaid Ebeneser ar hyd ei oes ac yn barod ei gymwynas.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

**ORDEINIO**
Ar ddydd Sadwrn 4 Tachwedd, ordeiniwyd a sefydlwyd Euron Hughes, mab Ronnie a Gwenda Hughes, yn weinidog yng nghapel Ebeneser, Dinas Mawddwy. Cynhwysir pum eglwys yn yr ofalaeth. Roedd yr ordeinio o dan ofal y Parchedig Athro Euros Wyn Jones ac offrymwyd y weddi ordeinio gan y Parchedig Gwynfor Williams.

**FFAIR NADOLIG**
Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig fel arfer ddechrau mis Rhagfyr. Siomedig oedd nifer y prynwyr ond serch hynny fe wnaed elw anrhydeddus. Diolch i'r chwiorydd am eu llafur ymroddedig.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG**
Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig ar 17 Rhagfyr gyda darlleniadau o'r Ysgrythur a charolau. Y darllenwyr oedd Branwen Edwards, John Howard Hughes, June Aubrey a Norah O'Brien. Cyflwynwyd y carolau gan Olwen Jones, Catrin Jones, Morwenna Roberts ac Eira Owain ac arweiniwyd y gweddïau gan Norah O'Brien. Cafwyd hefyd eitem ar y trwmped gan Catrin Jones ac eitem ar y clarinét gan Henry Francis: hyfryd oedd cael cwmni y to ieuanc, y ddau yn llawn brwdfrydedd fel arfer. Diolch yn fawr i Norah O'Brien, June Aubrey a Morwenna Roberts am wneud y paratoadau ar gyfer y gwasanaeth mor effeithiol. Cafwyd gair o groeso gan Megan Roberts ac o ddiolch gan Eira Owain a'r cyfeilydd oedd Margaret Tüzüner. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle eleni eto i fwynhau mins pei a phaned o de.

Ar 24 Rhagfyr roeddem yn falch o groesawu'r Parchedigion Gwynfor Williams a Richard Gillion. Diolch unwaith eto i Gwynfor am ei ymroddiad llwyraf i Ebeneser ar hyd y blynyddoedd. Rydym yn falch iawn fod Richard yn barod wedi ymgartrefu yn ein plith ac edmygwn ef yn fawr am ei frwdfrydedd i feistroli'r Gymraeg.

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau calonnog i Lil Watkins ar achlysur ei phen-blwydd yn naw deg mlwydd oed ar Ddydd Gŵyl San Steffan. Yn anffodus y dyddiau hyn mae Lil yn gaeth i'w chartref. Serch hynny yn siriol wenu fel cynt ac yn ymddiddori yng ngwaith yr eglwys.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*



*Salem, Rhyd y Foel – y plant yn derbyn anrhegion oddi ar y goeden Nadolig*

## Salem, Rhyd y Foel

**FFAIR NADOLIG**
Nos Wener Rhagfyr 1af cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol yn neuadd y pentref. Roedd nifer fawr o stondinau amrywiol a hefyd raffl gyda nifer o wobrwyon. Roedd y neuadd yn orlawn a phawb wedi mwynhau cymdeithasu dros baned a mins peis. Noson lwyddiannus dros ben.

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau calonnog i Bethan a Matthew Inskipp ar enedigaeth merch - Mali Faith, chwaer fach i Matthew. Mae Bethan yn wyres i'r ddiweddar Mrs Ceinwen Edwards, Ael y Bryn ac mae Bethan, ei mab bach Matthew a'i mam Glenys yn ffyddlon iawn i'r achos yn Salem ac yn teithio o Sir y Fflint i addoli. Edrychwn ymlaen at weld Matthew yn dod i'r capel i gyflwyno Mali i'r gynulleidfa yn y man!

**GWASANAETH CAROLAU**
Ddydd Sul Rhagfyr 17eg dan ofal ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadoligaidd dwyieithog. Daeth cynulleidfa arddechog o'r pentref a'r ardal i ymuno i addoli. Cymerwyd rhan arbennig gan yr angylion, Mari Wyn a Mali Grug, a Gwil Samuel oedd y bugail. Cafwyd datganiad ar y ffliwt gan Cadi Mai ac fe ddarllenodd Steffan Arfon ran bwrpasol allan o Feibl y Plant ac i ddilyn cawsom unawd gan Beth Megan – "Dim ond Seren". Yn ogystal cymerwyd rhan gan nifer o oedolion. Roeddem yn hynod falch fod un o blant y capel sef Mr Geraint Roberts, Prestatyn, wedi rhoi o'i amser prin i gyfeilio i ni. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd paned a mins peis. Yn ôl yr arfer roedd y casgliad yn mynd tuag at elusen Gweithredu Dros Blant ac fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £123.00. Diolch i bawb am bob cefnogaeth ac i Menna ac Esther am addurno'r capel mor arbennig.

*Gohebydd – Siân Price*



*Angela a Glenys, ffrindiau bore oes*

## Ebeneser, Dolgellau

**CYNHESRWYDD**
Wedi 35 mlynedd o wasanaeth condemniwyd bwyler nwy y capel ac, ar ôl gweithredu gofynion y Parc Cenedlaethol, gosodwyd bwyler newydd. Mae ein diolch yn fawr i'r rhai fu wrthi'n glanhau'r adeilad ar ddiwedd y gwaith. Addurnwyd y capel dros wyliau'r Nadolig ac edrychodd yn hardd iawn yn ogystal â bod yn gynnes.

**GWASANAETH CAROLAU UNDEBOL DOLGELLAU**
Yn Ebeneser y cynhaliwyd y gwasanaeth yma eleni o dan ofal y Diacon Stephen Roe. Hefyd ar y Sul cyn y Nadolig cafwyd canu carolau a phaned i ddilyn y gwasanaeth.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

**Bwriedir trefnu trip i bobl o Synod Cymru sydd â diddordeb yng nghyrsiau Coleg Cliff i ddiwrnod blasu yng Ngholeg Cliff, Calver, Swydd Derby ar 15 Mai 2018**

Ceir manylion am Goleg Cliff ar www.cliffcollege.ac.uk/students/open-days
Os gwelwch yn dda rhowch wybod i Delyth os oes gennych ddiddordeb mewn mynd ar y daith gan nodi hefyd a oes yna gyrsiau penodol a gynigir gan Goleg Cliff yr hoffech wybod mwy amdanynt. Diolch.
Delyth Wyn Davies Swyddog Dysgu a Datblygu (07799 902576 neu daviesd@methodistchurch.org.uk)

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Ebeneser, Tywyn



Dyma lun Mrs Elwyn Thomas yn cyflwyno tusw o flodau i Mrs Blodwen Parry ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Cafodd aelodau'r capel gyfle i ddiolch a dymuno pen-blwydd hapus i Mrs Parry mewn te parti yn y festri ar 29 Tachwedd 2017. Braf oedd cael cwmni rhai o'r teulu sef Annewen merch Mrs Parry, John a Dr Hannah.

*Gohebydd – Noel Williams*



## Shiloh, Tregarth

**DATHLU'R NADOLIG YN SHILOH**

Cafwyd dau gyfarfod hyfryd yn Shiloh yn ein dwyn ni i gyd at uchafbwynt y Nadolig. Pnawn Sul, Rhagfyr 17 trefnwyd Oedfa Deulu yng nghwmni rhai o ieuenctid y capel gyda rhai rhieni yn cymryd rhan. Trefnwyd y cyfarfod gan Christine Morris Jones a daeth ein gweinidog i ganu gyda'i gitâr rai caneuon Nadoligaidd. Canodd Aziliz Kervegant ddwy gân a chafwyd datganiad ar y delyn gan Gwenno. Bu darlleniadau a chanu carolau yn cael eu ledio gan Huw Morris Jones, Myfi Celyn, Nel Mai, Gwenlli, Iestyn ac Esme a braf iawn oedd cael croesawu un arall o ieuenctid Shiloh adre o Brifysgol Birmingham, sef Luke Crowe, sydd ar ei flwyddyn gyntaf yn astudio Hanes. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd parti Nadolig a rhannwyd anrhegion i'r ieuenctid fu'n cymryd rhan.

Ar nos Sul, Rhagfyr 24 daeth cynulleidfa dda i ddathlu'r Nadolig gyda gwasanaeth a drefnwyd gan Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm. Cawsom ddarlleniadau a charolau a therfynwyd gyda dathlu Swper yr Arglwydd yng nghwmni ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion.

**GWELLHAD BUAN**

Mae nifer o'r aelodau wedi bod yn cwyno yn ddiweddar a rhai wedi bod mewn ysbyty. Cofiwn yn ein gweddïau am y rhain i gyd. Bu David Ellis Jones eto am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac felly hefyd Elfed Jones sydd yntau wedi bod yn bur wael yn ddiweddar. Cofiwn am ein blaenor hynaf sef Mrs Edith Hughes a fethodd ddod i'r gwasanaethau ers rhai misoedd bellach. Gwellhad llwyr a buan i chi i gyd.

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau i un o'n haelodau, sef Anwen Griffiths, sydd newydd gael y fraint o fod yn nain am y tro cyntaf. Ar ddechrau mis Rhagfyr ganed merch fach i fab Anwen, sef Dylan a'i wraig Lucy ac enw'r fechan yw Georgina Lili. Mae'r teulu yn byw yn Swydd Rhydychen. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

*Gohebydd – Gwenda Davie*



## Tabernacl, Llanfyllin

**YMDRECH GWEINIDOGAETH BRO**

Dyma'r ail flwyddyn i'r capeli yng Ngweinidogaeth Bro Tanat, Cain, Efyrnwy a Llanarmon gynnal ymdrech fawr elusennol ac eleni roedd er budd Cymorth Cristnogol a'r Ambiwlans Awyr. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £1500, gyda stondin capeli Llanfyllin yn codi £230. Diolch i'r rhai a gyfrannodd nwyddau a rhoddion ac i Eva Roberts, Olwen Jones a Gwyneth Thomas am ofalu am y stondin. Talwyd y diolchiadau gan Thomas Morris, Llanrhaeadr.

**Y PLYGAIN**

Cynhaliwyd y Plygain lleol arferol yng Nghapel y Tabernacl Llanfyllin dan lywyddiaeth y Gweinidog a Chadeirydd y Gymdeithas Gymraeg leol, y Parchedig Gwyndaf Richards, ac roedd tyrfa dda wedi dod ynghyd. Cafwyd tair rownd o garolau traddodiadol gan bartïon Merched y Wawr Llanfyllin, Y Gad a Bronheulog, ac adroddwyd cerddi gan feirdd lleol o'r 19eg ganrif gan y Parchedig G. Richards. Roedd canu cynulleidfaol ardderchog gydag Eldrydd Jones wrth yr organ. Diolch hefyd i Llywela Roberts am addurno'r capel. Canwyd Carol y Swper gan y dynion ac yna croesawyd pawb i'r swper yn y festri dan ofal merched y Gymdeithas Gymraeg yn y dref.

**ER COF ANNWYL**

Collodd Capel y Tabernacl un o' i aelodau ffyddlonaf ddiwedd y flwyddyn, sef Mrs Joyce Jones, Hafodunnos. Tan y ddamwain enbyd a gafodd flwyddyn ynghynt braidd i Joyce golli oedfa – bydd bwlch mawr ar ei hôl yn y capel ac ym mywyd Cymraeg y dref. Y gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards, oedd yng ngofal yr angladd gyda darlleniadau gan Mirain Chiltern, ei hwyres, a Tom Ellis. Rhoddodd ei merch, Nia Chilton, deyrnged hyfryd i'w mam ar ran y teulu, a chafwyd unawd arbennig gan Rhodri Prys Jones, ŵyr Joyce, sy'n prysur wneud enw iddo'i hun ym myd canu. Mrs Eldrydd Jones oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Geraint, Iolo, Nia a'r teulu i gyd.

ER COF AM JOYCE

**Colli cymar a'n colled ni, - colli nain,**
**colli mam eleni,**
**ei byd hael a'i bywyd hi**
**oedd angor i'w thrysori.**

**Y NADOLIG**

Fel sy'n draddodiadol yn Llanfyllin cynhaliwyd pasiant ar noswyl Nadolig yng Nghapel y Tabernacl gan aelodau, athrawon a rhieni'r Ysgol Sul undebol. Daeth tyrfa dda ynghyd ac roedd canu arbennig o dda ar y carolau. Yr organydd oedd Eldrydd Jones ac arweiniwyd y pasiant gan Eleri Llwyd a Rhian Evans. Roedd Mike Evans a Llywela Roberts



Tabernacl, Llanfyllin

wedi bod yn brysur iawn yn addurno'r llwyfan a'r capel. Aeth y casgliad tuag at Cymorth Cristnogol gan feddwl am y trueiniaid yn dioddef newyn yn Yemen.

Ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd yr oedfa Gymun draddodiadol undebol yn Festri'r Tabernacl dan arweiniad y gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards gyda chymorth Mr Tom Ellis ac Eldrydd Jones wrth yr organ. Aeth y casgliad at Gymorth Cristnogol.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Pont Robert

**PROFEDIGAETH**

Er braidd yn ddiweddar rydym fel aelodau yn cydymdeimlo â Siân Vaughan Jones a'r teulu, Penwtra, yn eu profedigaeth o golli ewythr yn ardal Rhuthun. Hefyd rydym yn cydymdeimlo â Iolo a Gwenan Jones ym marwolaeth Joyce Jones, Hafodunnos, Llanfyllin.

**LLONGYFARCHIADAU**

Rydym yn llongyfarch Sioned Watkin (wyres Llinos a Bryan) ar ei llwyddiant ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd mewn Nyrsio o Brifysgol Birmingham.

Pob dymuniad da i'r dyfodol. Llongyfarchion hefyd i Hannah Parry, Rhosymenyn, ar ei llwyddiant yn dod yn gyntaf drwy Gymru yn y gystadleuaeth offerynnol yn Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc yn Llandudno. Roedd yn chwarae'r clarinét. Da iawn ti.

**GWELLHAD**

Da deall bod Sharon Parry, Rhosymenyn, yn parhau i wella ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty'r Amwythig.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Pisgah, Rhiwlas

**LLONGYFARCHIADAU**

Mae Gareth Williams, un o'n haelodau ffyddlon, yn gweithio yn y caffi yn Ysbyty Gwynedd ac yn ddiweddar fe dderbyniodd dystysgif am ei gyfraniad i'r gymuned. Yn sicr mae Gareth yn llwyr deilyngu y dystysgrif yma gan ei fod yn cyfrannu mewn llawer o ffyrdd i fywyd pentref Rhiwlas ac mae'n hynod o gymwynasgar. Llongyfarchiadau i ti Gareth; mae dy deulu a'th ffrindiau yn hynod falch ohonot.



# Cyfnod y Grawys – beth ddylwn i ei wneud ynglŷn ag ef?

gan y Parchedig
Martin Evans-Jones

Efallai mai'r Grawys yw'r cyfnod mwyaf amhoblogaidd yn y flwyddyn Gristnogol. Dyma'r amser pan ofynnir i ni deithio gyda'r Iesu trwy amser ei demtiad gan y diafol ar y ffordd i'r Groes am ddeugain niwrnod a deugain nos. Mae'n cychwyn ar ddydd Mercher y Lludw ( Chwefror 14 eleni) ac yn mynd ymlaen hyd at Sul y Pasg (Ebrill y 1af).

Erbyn heddiw mae seciwlariaeth wedi llwyddo i'w ddinoethi o bob ystyr ysbrydol. Y cwestiwn a ofynnir yw- "Beth wyt ti am ymwrthod ag ef yn ystod y Grawys? Siocled? Cwrw? Hambyrgyrs?" .Mae'r pwyslais i gyd ar ymprydio er mwyn colli pwysau ac ymgyrraedd at ffitrwydd corfforol boed hynny drwy ddewis deiet 5/2 neu drwy fyw ar fresych am y cwbwl o'r cyfnod, neu baratoi ar gyfer rhyw ras farathonaidd neu driathlon arswydus.

Pan aeth Iesu i'r anialwch i ymgodymu â'i demtasiynau gyda'r diafol (Mathew 4.1-11) pwrpas ei ymprydio oedd i'w ddisgyblu i ddod yn nes at Dduw mewn gweddi. Felly rhaid i ymprydio fynd law yn llaw â gweddïo i fod yn effeithiol.

Yn y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 6.1-21) mae Iesu yn ein dysgu fod tair agwedd i ddisgyblaeth y Grawys – rhoi elusen i rai llai ffortunus na ni; gweddïo; ymprydio. Maent i gyd i'w cyflawni yn y dirgel heb dynnu sylw atom ein hunain na brolio mor dda ydym!

"Pan fyddi'n rhoi elusen paid â chanu utgorn o'th flaen..." (6.2).


"Pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel..." (6.6).

"Pan fyddi di'n ymprydio, eneinia dy ben a golch dy wyneb, fel nad pobl a gaiff weld dy fod yn ymprydio, ond yn hytrach dy Dad sydd yn y dirgel..." (6.17-18).

Pwrpas y Grawys felly yw ein gwneud yn fwy ymwybodol o'n taith gyda'r Iesu allan o farwolaeth i fywyd newydd trwy fyfyrio ar ystyr ei groeshoeliad a'i atgyfodiad.

I orffen, a gaf i gynnig ychydig o gyngor ynglŷn â sut i weddïo os ydych am fentro ailgydio yn yr ymarfer fel disgyblaeth newydd dros y Grawys hwn. Rhaid i ddechrau ailddysgu sut i fod yn llonydd. Eisteddwch mewn cadair neu ar y llawr yn y modd mwyaf ymlacedig. Canolbwyntiwch ar yr hyn a deimlwch yn eich corff, gan gychwyn gyda'ch troed a gweithio'i fyny trwy eich corff nes eich bod wedi ymlacio'n llwyr. Os tynnir eich sylw i ffwrdd gan syniadau dryslyd, cydnabyddwch hwy, a dod yn ôl i ganolbwyntio ar eich corff. Unwaith y teimlwch yn ymlacedig gweddïwch trwy ddweud, gyda'r Apostol Paul, "ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud ac yn bod" (Actau 17.28). Dyma lle mae Duw, yn union lle rydym ni. Felly holl bwrpas ein gweddi yw ceisio byw mor gyflawn â phosibl yn y foment bresennol. Ewyllys Duw i chwi nawr yw ei ddarganfod Ef yng nghanol eich sefyllfa arbennig chwi, yn eich bywyd teuluol, yn eich gwaith, ac yn eich hamdden. Pob bendith arnoch y Grawys yma.

# TUDALEN Y PLANT



Llun drwy garedigrwydd *Roots for Churches*


Mae pawb yn hoffi stori ac mae'r Beibl yn dweud wrthym fod Iesu Grist yn aml yn dweud stori er mwyn i bobl ddeall am gariad Duw. Mae un o'i storïau yn sôn am hedyn bach iawn sydd yn tyfu yn y pen draw i fod yn blanhigyn mawr.

*Gofynnodd Iesu wedyn: "Sut mae disgrifio teyrnasiad Duw? Pa ddarlun arall allwn ni ddefnyddio? Mae fel hedyn mwstard yn cael ei blannu yn y pridd. Er mai dyma'r hedyn lleia un mae'n tyfu i fod y planhigyn mwya yn yr ardd. Mae adar yn gallu nythu a chysgodi yn ei ganghennau!"* (Marc 4:30-32 beibl.net)

Gallwn ni wneud pethau bach bob dydd i helpu teyrnasiad Duw i dyfu.

Gweddi:
Arglwydd Iesu, helpa fi i wneud pethau caredig bob dydd, er mwyn i dy deyrnasiad di dyfu.

Mae **12** gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma o'r dylluan yn y goeden. Beth ydyn nhw?



# Dydd Gŵyl ein Nawddsant

Dydd Sul y canodd Dewi offeren ac y pregethodd i'r bobl, a'i gyfryw ni chlywyd, ac wedi ef byth ni chlywir ... Ac wedi darfod y bregeth ac offeren y rhoddes Dewi yn gyffredin ei fendith i bawb a'r a oedd yna. Ac wedi darfod iddo roddi ei fendith i bawb y dywad yr ymadrodd hwn: "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen, a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i. A minnau a gerddaf y ffordd yr â ein tadau iddi. Ac yn iach ichwi," ebe Dewi, "a boed grymus ichwi fod ar y ddaear ..."

A hynny dydd Mawrth y dydd cyntaf o Galan Mawrth, y cymerth Iesu Grist enaid Dewi Sant gyda mawr fuddugoliaeth a llawenydd ac anrhydedd. Wedi ei newyn a'i syched a'i annwyd a'i lafuriau a'i ddirwest a'i gardodau a'i flinder a'i drallod a'i brofedigaethau a'i feddwl am y byd – y cymerth yr angylion ei enaid ac a'i dygant heb lafur, a llawenydd heb dristyd, ac amledd o bob rhyw dda a buddugoliaeth a chlaerder a thegwch; y lle mae moliant rhyswyr [milwyr] Crist, a lle yr esgeulusir y cyfoethogion drwg, y lle y mae iechyd heb ddolur, ac ieuenctid heb henaint, a thangnefedd heb anundeb, a gogoniant heb orwagedd, a cherddau heb flinder, a gwobrwyau heb ddiwedd.

*(O Buchedd Dewi, dyfynnir drwy ganiatâd o Mil a Mwy o Berlau Olaf Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, 2013)*


Yr Wyddfa

Bedyddfaen, Cadeirlan Tyddewi


Tyddewi

# 'LEONARD BERNSTEIN YN 100'

gan Gareth Blainey

Bydd mwy na mil o ddigwyddiadau ar chwe chyfandir dros gyfnod o bron i ddwy flynedd. Dyna'r cyhoeddiad trawiadol a wnaed ym Mai y llynedd ynglŷn â'r dathliadau i nodi'r ffaith y bydd hi'n ganmlwyddiant genedigaeth Leonard Bernstein ar 25 Awst eleni. Dechreuodd dathliadau "Leonard Bernstein at 100" ym Medi y llynedd a byddan nhw'n parhau tan ddiwedd Awst y flwyddyn nesaf i gofio'r Americanwr oedd yn gyfansoddwr, arweinydd, pianydd, awdur a darlithydd.

Fel cyfansoddwr y mae Bernstein yn fwyaf adnabyddus ond fel arweinydd y gwnaeth o argraff ar fyd cerddoriaeth am y tro cyntaf yn 1943. Ychydig ar ôl iddo gael ei benodi yn is-arweinydd Cerddorfa Ffilharmonig Efrog Newydd bu raid i Bruno Walter, oedd wedi derbyn gwahoddiad i ddod i'r ddinas i arwain y gerddorfa mewn cyngerdd yn Neuadd Carnegie, dynnu yn ôl oherwydd ffliw. Ar fyr rybudd a heb ymarfer gyda'r gerddorfa, Bernstein gymerodd le Walter a daeth yn enwog yn yr Unol Daleithiau. Darlledwyd y cyngerdd ledled y wlad ar orsaf radio CBS a'r diwrnod wedyn roedd y stori am orchest yr arweinydd ifanc ar dudalen flaen papur newydd y "New York Times".


*Leonard Bernstein*

Lai na blwyddyn cyn ei farwolaeth yn 1990, ar Ddydd Nadolig 1989 Bernstein oedd arweinydd cerddorfa a berfformiodd Symffoni Rhif 9 - 'Symffoni Gorawl' - Beethoven mewn cyngerdd yn Nwyrain Berlin i ddathlu dymchwel Wal Berlin oedd yn fur rhwng Dwyrain yr Almaen Gomiwnyddol a Gorllewin y wlad. Darlledwyd y perfformiad yn fyw mewn mwy nag ugain o wledydd ac ar gyfer yr achlysur newidiodd Bernstein y gair "Freude" (llawenydd) sy'n cael ei ganu gan y corws yn symudiad olaf y symffoni i "Freiheit" (rhyddid). Dywedodd o: 'Rydw i'n siŵr fuasai ddim ots gan Beethoven'.

Yn ogystal ag arwain symffonïau di-rif cyfansoddodd Bernstein dair symffoni a'i gyfansoddiad mwyaf adnabyddus yw'r gerddoriaeth ar gyfer y sioe gerdd "West Side Story" a berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1957. Cafodd y sioe ei hysbrydoli gan ddrama Shakespeare "Romeo and Juliet" ac mae hi'n llawn o alawon hyfryd gan Bernstein gan gynnwys alawon y caneuon "Maria", "Tonight", "America", "I Feel Pretty" a "Somewhere".

Ac wrth sôn am 'Somewhere', rhywle yn y byd wrth ichi ddarllen y golofn hon mae hi'n ddigon posibl fod rhywun yn perfformio darn o gerddoriaeth gan Bernstein i gofio un o gerddorion amlycaf y ganrif ddiwethaf.

# Crwydro Llefydd Sanctaidd – Caersallwg (Salisbury)

gan Bet Holmes

"Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn," medden nhw, ond i lawr yn y cwm y mae'r eglwys newydd. Wel, "newydd" dwi'n ei ddweud, ond o 1220 y mae'n dyddio. Cyn hynny, roedd yr eglwys gadeiriol lan yn Hen Sarum, ond ar ôl iddo gael trafferth gyda'r milwyr yn yr ardal, penderfynodd yr Esgob Richard



Poore adeiladu eglwys newydd ar lan afon Avon. Yn esiampl hyfryd o bensaernïaeth Othig Seisnig Gynnar, mae'n enwog hefyd am fod â'r meindwr uchaf ym Mhrydain – 404 troedfedd. Dyma'r peth cyntaf i chi ei weld wrth i chi deithio i'r ddinas; cafodd ei adeiladu yn 1549, ac os ewch chi lan yn ei ganol,



fe welwch chi'r sgaffaldwaith pren a gododd y gweithwyr er mwyn ei greu.

Mae gan y gadeirlan y cloestr mwyaf a hefyd y clos mwyaf ym Mhrydain, ac mae'n bosib cael Gwely a Brecwast yn Sarum College, ochr draw'r borfa. Pan fues i yno, roedd arddangosfa o ddarluniau (yn y coleg) ac o gerfluniau (yn y clos) gan y gerflunwraig fyd-enwog Sophie Ryder. Y *Ladyhares*: hybridau o fenywod ac ysgyfarnogod oedd y rhan fwyaf ohonynt; bydd gan bawb farn bersonol amdanynt, ond fe welais i nhw braidd yn fwganllyd.

Tu fewn i'r eglwys mae llawer o bethau diddorol i'w gweld hefyd: copi o'r Magna Carta, er enghraifft, a'r cloc hynaf yn y byd sy'n dal i ddweud yr amser. Nid trwy edrych ar ei wyneb y cewch chi'r awr, cofiwch, achos yn ôl ym 1386 dim ond trwy ganu cloch yr oedd y cloc yn gwneud ei waith! Ar y dechrau roedd yn byw mewn tŵr ar wahân (roedd hyn yn un o raglenni *Time Team*), ac ar ôl hynny yn nhŵr yr eglwys gadeiriol ei hunan. Wedyn, ym 1884, rhoddwyd y cloc yng nghadw mewn atig ac *anghofiwyd amdano*. Ond ar ôl i rywun ddod ar ei draws ym 1929, cafodd ei atgyweirio, ac mae'n dal i ganu'r oriau hyd heddiw.

Cofiwch, mae pethau newydd sbon yng Nghadeirlan Salisbury hefyd. Creodd William Pye y bedyddfan (ni ellir ei alw yn faen bedydd!) yn 2008. Mewn siâp croes a 3 medr ar ei draws, mae'n bosib i oedolyn gael ei fedyddio trwy drochiad ynddo. Mae wyneb y dŵr yn sefyll yn dawel, ond oddi wrth bob ochr i'r pwll mae'n llifo i lawr: symbol o'r gwir ddŵr bywiol sy'n ffrydio i fywyd tragwyddol.

